CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 i 2020: cwestiynau cyffredin ar derfynu prosiectau

I darparu atebion i gwestiynau cyffredin ar derfynu prosiect o dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014 i 2020 i fuddiolwyr.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 28 Medi 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 4 Ionawr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

1. Pa mor hir fydd angen i mi gadw dogfennau ar ôl i fy ngweithrediad / prosiect ddod i ben?

2. Beth mae'r rheolau 'parhauster' yn ei olygu i'm prosiect i ar ôl iddo derfynu?

3. Beth caiff ei ystyried yn 'Fuddsoddiad mewn Seilwaith neu fuddsoddiad cynhyrchiol'?

4. Pa mor hir mae angen imi barhau i arddangos plac yr UE ar ôl terfynu'r prosiect?

5. Pa mor hir mae angen imi gadw gwefan fy mhrosiect yn fyw ar ôl terfynu'r prosiect?

6. Nawr bod y DU wedi gadael yr UE, oes dal angen imi gadw dogfennau prosiect ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol?

7. Pa rwymedigaethau sydd ar waith ar gyfer asedau a brynwyd gyda chronfeydd yr UE?

8. A allaf werthu neu roi gliniaduron/ offer/ dodrefn prosiect ar ôl i'r prosiect ddod i ben os nad oes eu hangen mwyach?

9. A allaf barhau i ddefnyddio deunyddiau dysgu / deunyddiau hyfforddi a ddatblygwyd gan ein prosiect ar ôl iddo ddod i ben?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am hawlfraint.

## 10. A yw costau diswyddo gan gynnwys taliadau diswyddo estynedig i staff sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn gost gymwys?

## 11. Oes angen i mi ddarparu copi o hysbysiad preifatrwydd y prosiect i WEFO?

## 12. A allaf wneud cais am daliadau ymlaen llaw i dalu am gostau penodol y bydd y prosiect yn eu talu ar ôl iddo ddod i ben?

## 13. Wrth i'r buddiolwyr gadw dogfennau prosiect am nifer o flynyddoedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben, a yw'r gost storio hon yn gymwys?

## 14. Oes angen imi gyhoeddi fy ngwerthusiad?

## 15. A fu unrhyw newidiadau i'r broses ar gyfer cyflwyno data monitro?

## 16. Ydy'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymestyn cyfnod cau'r rhaglen

## 17. Pwy ddylwn i gysylltu â hwy i nodi bod 'Digwyddiad Hysbysu' wedi digwydd neu ar fin digwydd a bod fy mhrosiect wedi dod i ben?

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Nod y ddogfen hon yw darparu atebion i gwestiynau cyffredin ar derfynu prosiect o dan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014 i 2020 i fuddiolwyr. Dylid ei darllen ar y cyd â chanllawiau WEFO ar **baratoi i derfynu prosiect** a **rheolau cymhwystra a chydymffurfio** cronfeydd strwythurol 2014 i 2020 ac ar gyfer gweithrediadau Iwerddon Cymru **Rheolau a Chanllawiau Cymhwysedd Rhaglenni Iwerddon Cymru**.

Defnyddir y term prosiect/gweithrediad yn gyfnewidiol yn y ddogfen hon. Dyma'r cynigion a nodir yn eich cais am gyllid ac a gymeradwywyd gennym ni neu gan Gorff Cyfryngol lle y'u dynodwyd gan WEFO.

Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Prosiect (PDO) / Swyddog Gweithrediadau os oes gennych chi unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â therfynu prosiect/ gweithrediad.

# 1. Pa mor hir fydd angen i mi gadw dogfennau ar ôl i fy ngweithrediad / prosiect ddod i ben?

Mae cadw cofnodion yn ofyniad rheoleiddio craidd yr EC (Erthygl 140 o Reoliad 1303/ 2013) ac un y mae'n rhaid i bob buddiolwr gadw ato. Amlinellir hyn fel amod i'ch cytundeb cyllido a gellir dod o hyd i ganllawiau yn Rhan 2 o 'Rheolau Cymhwystra ac Amodau ar gyfer cael Cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014 i 2020' neu ar gyfer gweithrediadau Cymru Iwerddon, Adran 5 o reolau a chanllawiau Rhaglen Iwerddon Cymru.

Rhaid i chi hefyd ystyried y rhwymedigaethau pwysig canlynol a allai ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad hwn a'i gwneud yn ofynnol i chi gadw dogfennau am gyfnod hirach:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- **Cymorth gwladwriaethol** - lle dyfarnwyd cyllid yr UE gan ddefnyddio cymorth gwladwriaethol yna mae'n ofynnol i chi gynorthwyo WEFO gyda'r gofyniad i gadw dogfennau am ddeng mlynedd ar ôl i'r cymorth gael ei roi.
- **Parhauster** – os yw eich gweithrediad yn fuddsoddiad mewn seilwaith neu 'fuddsoddiad cynhyrchiol' yna bydd angen i chi gadw dogfennau sy'n cefnogi cydymffurfiaeth ag Erthygl 71 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 am hyd at 5 mlynedd ar ôl i'r taliad terfynol gael ei wneud gennym ni. Mae cwestiwn 2 yn rhoi mwy o fanylion am y rheol 'parhauster'.
- **Cynhyrchu refeniw –** mae'n bosibl y bydd angen cadw dogfennau am gyfnod hirach ar gyfer prosiectau sy'n cynhyrchu refeniw sy'n dod o dan Erthygl 61 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013, h.y. hyd at dair blynedd ar ôl cwblhau'r gwaith. Bydd angen i chi wirio eich Cytundeb Cyllido am fanylion ynghylch pa reolau sy'n berthnasol i'ch gweithrediad (Amod 10 'Gweithrediadau sy'n Cynhyrchu Refeniw Net'**.**
- **Asedau** – ar gyfer unrhyw asedau a brynwyd gyda chronfeydd yr UE, mae'n ofynnol i chi ein hysbysu o unrhyw werthiant/trosglwyddiad neu warediad o'r asedau hynny am hyd at bum mlynedd yn dilyn y taliad terfynol. Felly, yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid i chi barhau i gadw dogfennau sy'n dangos eich bod yn cydymffurfio â'r amod cyllid hwn. Mae cwestiwn 7 yn rhoi rhagor o fanylion ar reolau asedau.
- **Gofynion eraill** – wrth benderfynu a ddylid gwaredu cofnodion, rhaid i chi hefyd ystyried unrhyw ofynion eraill y tu allan i reoliadau'r UE. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, polisi cadw eich sefydliad eich hun a rheolau CThEM.

Yn ogystal, os yw archwiliadau neu ymchwiliadau ar y gweill, mae'n bosibl y cewch eich cynghori'n benodol i gadw'r trywydd archwilio hyd nes y clywir yn wahanol. Ar ôl terfynu eich prosiect, byddwn yn ysgrifennu a rhoi gwybod i chi am y dyddiadau cadw dogfennau sy'n berthnasol i'ch prosiect chi.

# 2. Beth mae'r rheolau 'parhauster' yn ei olygu i'm

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## prosiect i ar ôl iddo derfynu?

Mae'r rheol 'parhauster' yn gosod rhwymedigaeth ar fuddiolwyr i gynnal buddsoddiadau a ariennir gan yr UE am 5 mlynedd ar ôl y taliad terfynol (3 blynedd mewn achosion yn ymwneud â buddsoddiadau neu swyddi a grëwyd gan fusnesau bach a chanolig) lle mae buddsoddiad mewn seilwaith neu fuddsoddiad cynhyrchiol.

Os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd o fewn 5 mlynedd i'r taliad terfynol (i) mae'r gweithgaredd cynhyrchiol yn dod i ben (ii) mae gweithgaredd y prosiect yn cael ei adleoli y tu allan i ranbarth y rhaglen (iii) ceir newid yn y berchnogaeth ar eitem o seilwaith sy'n rhoi mantais gormodol i gorff cyhoeddus (vi) ceir newid sylweddol sy'n effeithio ar ei natur a fyddai'n tanseilio ei amcanion gwreiddiol, yna mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhywfaint o gyfraniad yr UE.

Bydd Tîm Gwirio Rheoli WEFO yn cynnal ymweliadau prosiect i wirio cydymffurfiaeth â rheolau parhauster - bydd yr ymweliad yn digwydd o leiaf unwaith o fewn y pum mlynedd ar ôl cwblhau y gweithrediad.

Mae gweithrediadau nad ydynt yn fuddsoddiad mewn seilwaith nac yn fuddsoddiad cynhyrchiol wedi'u heithrio o'r rheolau hyn (oni bai bod rheolau Cymorth Gwladwriaethol cymwys yn gosod rhwymedigaeth i gynnal y buddsoddiad).

## 3. Beth caiff ei ystyried yn ‘Fuddsoddiad mewn Seilwaith neu fuddsoddiad cynhyrchiol’?

Nid yw Erthygl 71 o'r Rheoliadau Darpariaeth Gyffredin (UE 1303/2013) yn diffinio'n llawn y termau 'seilwaith' neu 'fuddsoddiad cynhyrchiol', fodd bynnag,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mae rheoliadau/ cyhoeddiadau eraill y Gymuned Ewropeaidd yn cyfeirio at y ddau derm mewn ychydig mwy o fanylder.

Gall eitemau o seilwaith gynnwys tir, adeiladau, eitemau mawr o offer, planhigion a pheiriannau, rhwydweithiau, cyfleustodau ac ati. Yn gyffredinol, ni fydd rheolau gwydnwch yn berthnasol i bethau fel nwyddau traul, offer symudol, dodrefn ac ati.

Buddsoddiadau cynhyrchiol yw buddsoddiadau a wneir i gynyddu capasiti cynhyrchiol menter. Gellir ei ddiffinio ymhellach fel buddsoddiad mewn cyfalaf sefydlog neu asedau anfaterol ar gyfer mentrau, sydd i'w defnyddio ar gyfer cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, a thrwy hynny gyfrannu at ffurfio cyfalaf gros a chyflogaeth.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich prosiect yn fuddsoddiad mewn seilwaith neu fuddsoddiad cynhyrchiol, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Prosiect / Swyddog Gweithrediadau.

## 4. Pa mor hir mae angen imi barhau i arddangos plac yr UE ar ôl terfynu'r prosiect?

Ar gyfer gweithrediadau ESF nid oes gofyn parhau i arddangos plac coffa ar ôl iddynt ddod i ben.  Fodd bynnag, pan fyddant yn dod i ben, bydd angen i chi gynnal yr holl ddogfennau ategol nes bod eich cyfnod cadw priodol yn dod i ben (bydd WEFO yn eich hysbysu o'r dyddiadau cadw perthnasol) ac o ran placiau byddem yn eich cynghori i gynnal y rhain (er nad yw'n ofyniad i'w harddangos mwyach) gyda'r dogfennau ategol ar gyfer pob gweithrediad nes bod y cyfnod cadw wedi darfod.

Ar gyfer gweithrediadau cyfalaf ERDF, rhaid i chi arddangos arwyddion (un ai plac neu hysbysfwrdd) **parhaol** (h.y. am gyfnod amhenodol) mewn lleoliad sy'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hawdd i'r cyhoedd ei weld.

## 5. Pa mor hir mae angen imi gadw gwefan fy mhrosiect yn fyw ar ôl terfynu'r prosiect?

Dim ond tan ddiwedd y prosiect y mae angen i fuddiolwyr gadw gwefannau'n fyw ac arddangos logo'r UE ar y wefan. Unwaith y bydd y prosiect wedi dod i ben ac nad yw'r wefan yn cael ei defnyddio bellach nid oes angen ei chadw ar-lein / yn fyw.

Fodd bynnag, dylai'r buddiolwyr sicrhau eu bod yn cadw tystiolaeth o'r cynnwys digidol / gwefan a gynhaliwyd i roi cyhoeddusrwydd i gefnogaeth ERDF/ESF. Nid oes rhaid i chi arbed pob tudalen o'r wefan o reidrwydd - yr unig ofyniad, fel y nodir yn y canllawiau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, yw bod cronfeydd yr UE yn cael eu cydnabod ar y wefan. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi logo ESF neu ERDF mewn fformat amlwg a hygyrch a disgrifiad byr o'r prosiect, gan gynnwys ei nodau a'i ganlyniadau, ac enw'r gronfa y mae'r gefnogaeth ariannol wedi'i chymeradwyo ohoni. Lle mae gwefan wedi ei datblygu at yr unig bwrpas o gyflwyno cynllun sy'n cael ei ariannu gan yr UE, yna dylai'r logo ynghyd â'r wybodaeth yma ymddangos ar hafan y wefan.

Felly, dylai buddiolwyr gadw tystiolaeth o'r elfennau uchod o'r wefan. Gellir gwneud hyn mewn ychydig o ffyrdd, naill ai drwy arbed y cynnwys digidol drwy archifo'r we neu drwy gasglu'r wybodaeth a geir ar y wefan a'i arbed (copi electronig neu galed) yn unol ag un o'r opsiynau yn adran 5.1.4.2 o'r rheolau cymhwysedd. Dylid cadw'r wybodaeth hon yn unol â chyfnod cadw dogfennau'r prosiectau.

## 6. Nawr bod y DU wedi gadael yr UE, oes dal

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## angen imi gadw dogfennau prosiect ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol?

Ydy, mae'r un gofynion cadw dogfennau yn parhau i fod yn berthnasol i chi ac ni ddylech dinistrio unrhyw ddogfennau nes cael cyngor yn ysgrifenedig i wneud hynny gan WEFO, fel y nodir yn y Cytundeb Cyllido a rheolau cymhwystra WEFO - Adran 5.1.4.1 Cyfnodau Cadw Dogfennau a Chadw Cofnodion.

Gall eich gweithrediad fod yn destun ymweliadau archwilio a monitro unrhyw bryd hyd at ddyddiad terfynol eich cyfnod cadw neu hyd at o leiaf 31 Rhagfyr 2027 (neu'n hwyrach os yw grant yr UE yn cael ei ddyfarnu o dan reolau Cymorth Gwladwriaethol).

## 7. Pa rwymedigaethau sydd ar waith ar gyfer asedau a brynwyd gyda chronfeydd yr UE?

Mae amod o fewn Cytundeb Cyllido WEFO sy'n ei gwneud yn ofynnol i fuddiolwyr hysbysu WEFO (digwyddiad hysbysu) lle defnyddir asedau at ddibenion heblaw'r rhai a fwriedir yn wreiddiol neu sy'n cael eu gwaredu, o fewn 5 mlynedd i'r taliad terfynol. Mae Rheolau Cymhwystra WEFO a Rheolau Cymhwystra Rhaglen Gydweithredu Iwerddon Cymru yn nodi gofyniad i gynnal cofrestr asedau llawn ar gyfer yr holl asedau / offer a brynwyd gyda chymorth cronfeydd yr UE. Dylai'r gofrestr hon gynnwys manylion llawn dyddiadau prynu, cost, disgrifiad, lleoliad, dibrisiant a dyddiad gwerthu/gwaredu lle bo hynny'n berthnasol.

Yr arfer gorau yw cynnal a chadw log o'r holl offer a brynwyd gan ddefnyddio cymorth cronfeydd yr UE, er mwyn cefnogi unrhyw heriau archwilio. Gellir ystyried offer sydd ag oes o lai na blwyddyn yn gost refeniw.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 8. A allaf werthu neu roi gliniaduron/ offer/ dodrefn prosiect ar ôl i’r prosiect ddod i ben os nad oes eu hangen mwyach?

Nid yw rheoliadau parhauster yr UE yn berthnasol i liniaduron neu ddodrefn swyddfa fodd bynnag, fel y nodir yn C7, mae gofyniad cyffredinol i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio at y diben bwriadedig. Felly, lle rhoddir gliniaduron/ offer/ dodrefn yna dylid cynnal manylion h.y. rhifau cyfresol o liniaduron a roddwyd a dyddiad rhoi a chofnodir ar y gofrestr asedau. Os gwerthir offer, efallai y bydd angen rhoi gwybod i WEFO hefyd fel 'refeniw'. Ar gyfer unrhyw rodd neu werthu gliniaduron, bydd angen i fuddiolwyr sicrhau hefyd:

- Lle mae data buddiolwyr wedi'u cynnwys ar liniaduron rhaid trosglwyddo hyn i unrhyw becyn newydd gan sicrhau bod gofynion cadw dogfennau a chywirdeb yn cael eu bodloni ynghyd â chydymffurfiaeth â gofynion GDPR.
- Nad oes modd adfer y data sydd wedi’u storio (h.y. dileu data trwy ddileu neu ddiwygio gyriannau caled) a lle gwneir hyn, sicrhau bod y cymwysterau ISO priodol a'r achrediadau TG yn eu lle ar gyfer y rhai sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn.

## 9. A allaf barhau i ddefnyddio deunyddiau dysgu / deunyddiau hyfforddi a ddatblygwyd gan ein prosiect ar ôl iddo ddod i ben?

Gallwch, gellir parhau i ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau dysgu/ hyfforddi sydd wedi'u datblygu gan eich prosiect a'u hariannu gan yr UE ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 10. A yw costau diswyddo gan gynnwys taliadau diswyddo estynedig i staff sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn gost gymwys?

Ydyn, gall costau diswyddo fod yn gymwys os yw’r costau hynny yn unol â'r egwyddorion a nodir yn adran 9.2.5 o'r rheolau cymhwystra neu adran 8.2.5 o reolau cymhwystra Iwerddon Cymru. Rhaid i gostau gael eu cynnwys yn y proffil cyflenwi / cyllideb costau staff presennol. Os yw polisi cytundebol / diswyddo safonol sefydliadau yn berthnasol i'r holl staff (waeth beth yw'r cynllun diswyddo) ac yn cynnig taliadau diswyddo gwell (h.y. gormodedd o ofynion statudol) yna mewn achosion o'r fath bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r taliad diswyddo yn gymwys i gymorth drwy'r cronfeydd strwythurol.

## 11. Oes angen i mi ddarparu copi o hysbysiad preifatrwydd y prosiect i WEFO?

Dylai eich prosiect gael hysbysiad preifatrwydd cyfredol. Ar gyfer gweithrediadau sydd wedi cael cefnogaeth ariannol gan y cronfeydd strwythurol, WEFO yw'r Rheolydd Data, y prif fuddiolwr yw'r Prosesydd Data ac ystyrir unrhyw fuddiolwyr ar y cyd yn Is-Broseswyr. Amlinellir y rolau hyn ym mhob cytundeb ariannu unigol drwy Atodlen o'r enw, 'Gofynion y GDPR' (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)'. Gall WEFO ofyn am weld copi o'ch hysbysiad preifatrwydd fel rhan o'i wiriadau terfynu.

I nodi: Mae WEFO wedi diwygio ei **Hysbysiad Preifatrwydd** yn ddiweddar.

## 12. A allaf wneud cais am daliadau ymlaen llaw i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## dalu am gostau penodol y bydd y prosiect yn eu talu ar ôl iddo ddod i ben?

Rhaid ysgwyddo a thalu costau yn ystod cyfnod gweithredu prosiect. Ni all gwasanaethau / nwyddau a brynwyd yn ystod cyfnod y prosiect, ond a fydd yn cael eu defnyddio ar ôl i'r prosiect ddod i ben gael eu had-dalu gan gronfeydd yr UE, a byddant yn cael eu hystyried yn anghymwys. Mae Dyddiad Cwblhau Ariannol y gweithrediad yn nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer ysgwyddo a thalu costau.

Yr unig eithriad i hyn yw:

- Costau Yswiriant Gwladol a chostau treth pensiynau sy'n gysylltiedig â thaliadau cyflog, gan fod WEFO yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd modd i fuddiolwyr dalu costau o'r fath o fewn yr un mis â'r costau cyflog cysylltiedig. Mae hyn ond yn berthnasol i gostau cyflog sydd wedi eu talu o fewn oes ariannol y gweithrediad y cytunwyd arno.
- Costau gwerthuso terfynol, pan fo oedi mewn gwerthusiadau terfynol ac mae'r dyddiad talu yn disgyn y tu allan i ddyddiad terfynu'r prosiect. Ar gytundeb ag WEFO, gellir hawlio cost y gwerthusiad fel rhan o'r cais terfynol. Dylai buddiolwyr gynnwys trafodiad yn eu rhestr trafodion gyda dyddiad taliad o fewn oes y prosiect a naill ai'r gost derfynol neu'r amcangyfrif mwyaf cywir o'r gost derfynol i'w hawlio. Ar ôl talu'r anfoneb derfynol, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'r taliad i dîm Taliadau WEFO h.y. cyfriflen banc, a chopi o'r anfoneb derfynol.

Buddiolwyr y grant fydd yn gyfrifol am amsugno unrhyw gostau o ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl i brosiectau ddod i ben, megis storio ac adalw cofnodion, arolygiadau archwilio ac ymchwiliadau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 13. Wrth i'r buddiolwyr gadw dogfennau prosiect am nifer o flynyddoedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben, a yw'r gost storio hon yn gymwys?

Gall gweithrediad / prosiect hawlio costau storio yn ystod ei gyfnod gweithredu, gan gynnwys taliadau ymlaen llaw ar gyfer cyfleusterau llogi storfa / trwyddedau TG ar gyfer y cyfnod ôl-gwblhau ond dim ond wrth gontractio gyda chyflenwyr allanol ar delerau masnachol safonol (h.y. talu ymlaen llaw am rentu gofod storio neu dalu ymlaen llaw am drwyddedau meddalwedd i helpu i storio e-gofnodion). Fodd bynnag, ni ddylech gynnig y trefniant hwn yn wirfoddol i gyflenwyr neu gamddefnyddio'r rheol er mwyn cyflymu mynediad i gronfeydd yr UE.

## 14. Oes angen imi gyhoeddi fy ngwerthusiad?

Nid oes gofyniad i fuddiolwyr gyhoeddi gwerthusiadau terfynol. Fodd bynnag, at ddibenion tryloywder, byddem yn annog buddiolwyr yn gryf i gyhoeddi eu gwerthusiadau terfynol. Fel rhan o'r broses derfynu, bydd WEFO yn gofyn am gopi o fersiwn derfynol gwerthusiad eich prosiect. Bydd WEFO yn cyhoeddi rhestr o'r holl werthusiadau terfynol a wneir gan fuddiolwyr ar ei wefan, gan amlinellu:

- y rhaglen berthnasol,
- enw'r gweithrediad,
- y buddiolwr,
- teitl yr adroddiad/ blwyddyn,
- awdur yr adroddiad

Yn ogystal, a phan fo ar gael, bydd WEFO yn cynnwys o fewn y rhestr hyperddolen i wefan buddiolwr lle gellir gweld yr adroddiad gwerthuso terfynol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 15. A fu unrhyw newidiadau i’r broses ar gyfer cyflwyno data monitro?

Mae’n bwysig bod gweithrediadau yn sicrhau cywirdeb a chyfanrwydd data monitro a gyflwynir drwy’r broses hawlio i adrodd yn llawn yn erbyn y dangosyddion targed ar gyfer eich gweithrediadau. Mae hyn yn bwysig nid yn unig ar lefel gweithredol ond hefyd er mwyn galluogi WEFO i adrodd ar y buddiannau a gyflawnwyd gan raglenni ERDF ac ESF yng Nghymru.

Ar gyfer gweithrediadau sy’n adrodd yn erbyn mentrau a/neu gyfranogwyr, y llynedd fe wnaethom gyflwyno gwelliannau i’r adroddiadau dilysu sy’n cael eu cynhyrchu pan fyddwch yn uwchlwytho Mentrau ERDF neu Gyfranogwyr ESF a/neu Mentrau ESF ar eich hawliadau. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys:

- Ychwanegu sgriniau ar wahân ar gyfer pob maes o fewn yr adroddiad dilysu;
- Manylion y rheol ddilysu sy’n cael ei chymhwyso i unrhyw faes penodol, gan gynnwys fformat y data gofynnol a’r rhestr o werthoedd data dilys;
- Cyfansymiau ar gyfer nifer y rhesi gyda data annilys a chyfansymiau ar gyfer nifer y rhesi sydd â data ar goll; a
- Rhestr o’r ugain rhes gyntaf o wallau, yn dangos a yw’r data ar goll neu a yw’n cynnwys data annilys.

Mae cyfyngiadau yn parhau o ran yr adroddiadau dilysu a gynhyrchir, gan eu bod yn rhai generig, ac nid ydynt yn benodol i weithrediadau. Felly, gallai’r adroddiad ddangos bod gwallau, fel data ar goll o feysydd nad ydych yn adrodd yn eu herbyn ar gyfer eith gweithrediad. Felly, gwiriwch yr adran ‘manylion dangosydd’ ar yr hawliad, unwaith y byddwch wedi uwchlwytho unrhyw ffeil/ffeiliau Cyfranogwyr neu Mentrau a gwirio’r adroddiad/adroddiadau dilysu a derbyn y ffeil/ffeiliau, er mwyn sicrhau bod y data a gyflawnwyd cronnol a gyfrifir gan y system yn dychwelyd y gwerthoedd a gyflawnwyd yr ydych yn eu disgwyl.

Ar gyfer data cyflawni dangosydd sy’n cael eu mewnbynnu â llaw ar yr adran

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

‘manylion dangosydd’, sicrhewch fod y data yn gyfredol ac yn gywir. Os dewch ar draws unrhyw broblemau, cysylltwch â **Blwch Post RME WEFO** neu cysylltwch â’ch Swyddog Datblygu Prosiectau/Swyddog Gweithrediadau am gymorth.

# 16. Ydy'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymestyn cyfnod cau'r rhaglen

Nid oes unrhyw gynigion i ymestyn dyddiad gorffen cymhwysedd y rhaglen, sy'n parhau ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae cynnig wedi'i gyhoeddi i ymestyn y terfynau amser ar gyfer cyflwyno dogfennau cais terfynol a chau WEFO i'r Comisiwn o 12 mis. Ni fyddai hyn yn effeithio ar yr amserlen cau ar gyfer buddiolwyr gan fod angen inni brosesu hawliadau yn brydlon o hyd, ond byddai'n golygu y gallai pob un ohonom fod yn agored i brosesau archwilio am flwyddyn yn hwy na'r disgwyl.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn rhan o fenter llawer mwy o'r enw 'Llwyfan Technolegau Strategol ar gyfer Ewrop' sydd wedi'i osod yng nghyd-destun yr adolygiad canol tymor o Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2021-2027. Mae'r gwaith ar hyn yn cael ei wneud drwy weithgor benodol ac ni ddisgwylir cytundeb gwleidyddol terfynol ar y cynigion, gan gynnwys ymestyn terfynau cau rhaglenni 2014-20, tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn galendr hon.

Yn y cyfamser, rhaid i bob buddiolwr barhau i weithio i'r terfynau cau a ddarperir gan eu PDO/CG.

# 17. Pwy ddylwn i gysylltu â hwy i nodi bod 'Digwyddiad Hysbysu' wedi digwydd neu ar fin

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## digwydd a bod fy mhrosiect wedi dod i ben?

Mae 'Digwyddiadau Hysbysu' a all ddigwydd wrth weithredu ac ar ôl cwblhau gweithgaredd prosiect cymeradwy yn cael eu hamlinellu yn Atodlen 2 eich Cytundeb Cyllid WEFO. Hefyd, mae Amod 9 Cytundeb Cyllid WEFO yn cyfarwyddo buddiolwyr a WEFO o'r broses i'w dilyn o ran 'Digwyddiadau Hysbysu'. Bydd angen i'r un broses hon gael ei mabwysiadu gan fuddiolwyr a WEFO unwaith y bydd prosiect wedi'i gwblhau/cau a bod 'Digwyddiad Hysbysu' wedi bod. Bydd angen i fuddiolwyr gysylltu â'u Swyddog Datblygu Prosiect/ Swyddog Gweithrediadau yn y lle cyntaf ac yn syth ar ôl nodi bodolaeth 'Digwyddiad Hysbysu'. Lle nad yw eich Swyddog Datblygu Prosiect/ Swyddog Gweithrediadau ar gael mwyach, cewch eich cyfeirio at aelod arall o WEFO a/ neu at Adran Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod Rhaglenni Cronfa Strwythurol 2014-2020 wedi'u gweinyddu, eu gweithredu, eu cau, eu monitro, eu harchwilio ac ati; yn unol â rheoliadau'r UE.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020-cwestiynau-cyffredin-ar-derfynu-prosiectau-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.